Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher 11eg Mehefin, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00 pm

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater
Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Christopher Parish,
Cyng Ros Bellamy, Cyng Hugh Towns, Cyng Julia Jones.
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid.

Ymddiheuriadau : Cyng Ieuan Gwyn, Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Cof 71 / Mehefin / 08 Ethol Cadeirydd ar gyfer Pwyllgor Cyllid 2008-9

Cynigiwyd y Cyng Ros Bellamy gan y Cyng Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Cof 72 / Mehefin / 08 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer Pwyllgor Cyllid 2008-9

Cynigiwyd y Cyng Chris Parish gan y Maer Cyng Edward Thomas, eiliwyd gan y Cyng Julia Jones. Roedd pawb o blaid.

Cof 73 / Mehefin / 08 Anfonebau i'w talu.

Gwesty'r Cawdor (Cinio'r Maer)	£	3,152.25
JW Thomas (Bwydlenni cinio'r Maer)	£	110.00
PINC (Tusw blodau cinio'r Maer)	£	50.00
Gwasg Gomer (Ailargraffu taflen Llwybr Treftadaeth)	£	801.00
Swyddog Technegol (costau)	£	24.32
Terry Davies (gwaith plwmio toiled Neuadd y Sir)	£	324.94
Orchardweb	£	42.50
Gwasanaethau Diogelwch Tân Kidde (Neuadd y Sir)	£	35.25
Treuliau Gweinyddiaeth y Clerc	£	124.02

Penderfynwyd y dylid talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 74 / Mehefin / 08 Incwm Dderbyniwyd Ebrill / Mai 2008

Archebiant CSC	£	15,891.34
Archaeoleg Dyfed (rent)	£	3,140.75
Grant Cynnal a Chadw Llwybrau Troed CSC	£	1,046.93

Arian/sieciau (Hysbysebion y rhaglen tân gwyllt)	£	130.00
Arian / Sieciau (Cinio'r Maer)	£	2,500.00
Credyd Banc	£	30.00
Llog cyfrif cyfredol	£	2.02
Llog cyfrif cynilo	£	n/a

Cof 75 / Mehefin / 08 Balansau'r Cyfrifon

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (31.5.08)	£	21,907.45
LTC CYFRIF CYNILO (31.3.08)	£	9,259.40
BOND LLOG UCHEL (llog i'w ychwanegu)	£	50,000.00
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.5.08)	£	72.42

Cof 76 / Mehefin / 08 Materion Ariannol Eraill

1. **Archwiliad 2007/8**.
Trafododd y Swyddog Cyllid y datganiad Trefn Lywodraethol blynyddol i'w ddychwelyd gyda manylion yr archwiliad gan ateb y cwestiynau set. Mae ffigurau'r archwiliad terfynol yn barod i'w hanfon at yr Archwiliwr Mewnol.

2. **Rhagolwg Tair Blynedd ar y Gyllideb**.
Trafodwyd y rhagolwg gan y Cynghorwyr, gan restru'r symiau a throsglwyddwyd ar gyfer prosiectau sydd i'w cwblhau yn 2008-9.

3. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

i) Cerebra – Caerfyrddin £ 100 . Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas, eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace.

ii) Urdd Gobaith Cymru £ 100 Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater

iii) WRVS – Cynllun Cludiant Gwledig Caerfyrddin £200. Cynigiwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins

iv) Henoed Llandeilo a'r Cylch £250. Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas, eiliwyd gan y Cyng Chris Parish

v) Age Concern – Caerfyrddin £200. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace

vi) Mencap Cymru £ 100. Cynigiwyd gan y Cyng Chris Parish, eiliwyd gan y Cyng Julia Jones

vii) Cwmni Dawns Footloose £200 Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Julia Jones

viii) Scope – Prydain £ 100 Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan y Cyng Chris Parish

viiii) Cruse Bereavement Caerfyrddin £100 Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas

x) Homestart Dinefwr £ 150 Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan y Cyng Chris Parish

xi) Canolfan Gynghori Rhydaman a'r Cylch £ 150. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins, eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace

xii) **Gŵyl Llandeilo o'r Synhwyrau**.

Trafodwyd y cais hwn gan y Cynghorwyr a chynigiodd y Maer Cyng Edward Thomas y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r Siambr Fasnach, yn cynnwys y trysorydd, Mr Tony Jukes i roi cyflwyniad byr ar eu cynlluniau ar gyfer yr Wŷl, cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn. Byddai hyn yn rhoi gwybodaeth i'r Cyngor er mwyn penderfynu ar y math priodol o gymorth i'w gynnig. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid. Gofynnwyd i'r Clerc roi'r cais hwn fel eitem ar Agenda cyfarfod mis Mehefin 25ain.

4. **Lwfans y Maer 2008-9**

Penderfynwyd sefydlu is-grŵp yn cynnwys y Cyng Hugh Towns, Cyng Ros Bellamy a'r Cyng Colin Jenkins i adolygu'r fformiwla ar gyfer penderfynu ar lwfans priodol i'r Maer yn 2008-9.

Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylid trosglwyddo £2000 i gyfrif y Maer fel swm dros dro. Eiliwyd hyn gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

5. **Prisio ac Yswirio Neuadd y Sir**

Yn dilyn trafodaeth ar yr angen i adolygu Pris er dibenion yswiriant, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at dri Priswr lleol, sef BJP. Peter Tompkinson, a Clee, Tompkinson & Francis. Gofynnwyd iddynt gynnig dyfynbris, erbyn cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn i'w gynnal Mehefin 25ain, am y gost o wneud y gwaith o Brisio costau ailadeiladu Neuadd y Sir fel Prisiad Ased.

6. **Cyflog Swyddogion**

Cafodd yr eitem ei gohirio tan y cyfarfod Cyllid nesaf.

7. **Gwariant Dathliad Canmlwyddiant Parc Penlan.**

Adroddodd y Maer Cyng Edward Thomas bod amcangyfrif o'r gwariant, ar hyn o bryd, oddi fewn i'r gyllideb. Mae'r holl drefniadau bellach wedi'u cwblhau.

8. **Raffl Elusennol y Maer**

Dywedodd y Maer y byddai'n ychwanegu at y swm o £582.10 a gasglwyd yn y cinio i gyfanswm o £600 ac y byddai dwy siec o £300 yr un yn cael eu cyflwyno i Ymchwil Cryd Cymalau a Tenovus ym Mharc Penlan ddydd Sadwrn 14eg, 2008. Mae Mr Julian Cooper eisoes wedi cyflwyno dwy siec o £55 i'r un elusennau in lieu o'i wobr ar gyfer yr arwerthiant.

Cof 77 / Mehefin / 08 Gohebiaeth Parthed Cyllid

i) Bwrdd Benthyciadau Cyhoeddus – rhybudd bod y credyd uniongyrchol Blynyddol am fenthyciadau ar Neuadd y Sir yn £ 4,885.00 ac yn daladwy ar Fehefin 30ain, 2008.

ii) Llythyr oddi wrth yr Ŵyl Cerdd a Blodau yn gofyn am arian ar gyfer y nawdd a gytunwyd arno ar gyfer y cyngerdd agoriadol a roddir gan 'King Singers' ar Orffennaf 12fed, 2008.

Gadawodd y Cyng Julia Jones yr ystafell pan drafodwyd yr eitem.

Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid talu swm o £2500 sef yr hyn y cytunwyd arno. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at bwysigion sifil cynghorau sy'n ffinio â hwy i fod yn westeion o'r Cyngor.

Cof 78 / Mehefin / 08 Doedd yna ddim rhagor o fusnes

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25 pm.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk